OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1004 (Cy. 93)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (Anghymhwyso o'r Bwrdd Taliadau) 2014

*Gwnaed - - - - 11 Ebrill 2014*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(2) a (3) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010(**1**), yn dilyn hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y Llywydd o dan adran 5(4) o'r Mesur hwnnw fod penderfyniad wedi ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (Anghymhwyso o'r Bwrdd Taliadau) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Atodlen 1 (Anghymwyso rhag bod yn Aelod o'r Bwrdd)

**2.** Mae paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Mesur wedi ei ddiwygio fel a ganlyn:

(a) yn is-baragraff (e) hepgorer "Tŷ'r Arglwyddi,";

(b) hepgorer is-baragraff (m).

(**1**) 2010 mccc 4.
(**2**) NDM5481.

*Theodore Huckle CF*
Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru

11 Ebrill 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 5 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("y Mesur") yn darparu ar gyfer diwygio Atodlen 1 i'r Mesur sy'n cynnwys rhestr o bersonau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd").

Mae adran 5(1) o'r Mesur yn galluogi Atodlen 1 i gael ei diwygio (drwy ychwanegu neu ddileu swydd neu berson, neu drwy newid y disgrifiad o swydd neu o berson o'r fath) yn dilyn penderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad").

Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru ("y Cwnsler Cyffredinol") i roi effaith i benderfyniad y Cynulliad drwy wneud Gorchymyn. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol arfer y pŵer hwnnw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu'n ysgrifenedig gan y Llywydd bod penderfyniad wedi ei wneud gan y Cynulliad.

Cafodd y Cwnsler Cyffredinol hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y Llywydd ar 3 Ebrill 2014 bod penderfyniad i ddiwygio Atodlen 1 i'r Mesur wedi ei wneud gan y Cynulliad ar 2 Ebrill 2014 (NDM5481).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i benderfyniad y Cynulliad drwy ddiwygio'r rhestr o bersonau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd yn Atodlen 1 i'r Mesur. Bellach, nid yw aelodau o Dŷ'r Arglwyddi na phersonau a oedd yn aelodau o'r naill neu'r llall o'r panelau a apwyntiwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i adolygu cyflogau a lwfansau Aelodau o'r Cynulliad yn unol â phenderfyniadau Comisiwn y Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2007 ac 8 Mai 2008 wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd.